OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1399

## Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2020

**Pleidleisiau drwy'r post: gwaredu dogfennau gan y swyddog canlyniadau neu'r swyddog cyfrif**

**5.**—(1) Mewn perthynas â'r swyddog canlyniadau ar gyfer is-etholiad perthnasol—

(a) yn ddarostyngedig i baragraff (2), ni chaiff gymryd unrhyw gamau neu unrhyw gamau pellach i agor prif amlen, nac i ymdrin â chynnwys amlen berthnasol sydd wedi ei hagor, yn unol â Rhan 5 o Reoliadau 2001;

(b) rhaid iddo drin y canlynol fel pe bai'n bapur pleidleisio sydd wedi ei gyfrif—

(i) unrhyw brif amlen nad yw wedi ei hagor;

(ii) cynnwys unrhyw amlen berthnasol sydd wedi ei hagor; a

(iii) unrhyw beth a gynhwysir yn y blwch pleidleisio drwy'r post.

(2) Pan fwriadwyd i'r pleidleisiau ar gyfer un is-etholiad perthnasol neu ragor gael eu cynnal gyda'i gilydd—

(a) caiff y swyddog canlyniadau agor unrhyw brif amlenni neu amlenni papurau pleidleisio er mwyn gwahanu'r cynnwys yn ôl yr etholiad at ddibenion paragraff (4);

(b) nid yw gofynion Rhan 5 o Reoliadau 2001 yn gymwys i unrhyw agor amlenni o'r fath.

(3) Rhaid i'r swyddog canlyniadau—

(a) selio mewn pecynnau—

(i) unrhyw beth a gynhwysir yn y daliedydd ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd;

(ii) unrhyw beth a gynhwysir yn y daliedydd ar gyfer amlenni papurau pleidleisio;

(iii) unrhyw beth a gynhwysir yn y daliedydd ar gyfer amlenni papurau pleidleisio a wrthodwyd;

(iv) unrhyw restr o bapurau pleidleisio a ddifethwyd, a gollwyd neu y cawsant eu canslo yn unol â rheoliadau 77(8), 78(4) neu 78A(3) o Reoliadau 2001;

(v) unrhyw beth a gynhwysir yn y daliedydd ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd (gweithdrefn wirio);

(vi) unrhyw beth a gynhwysir yn y daliedydd ar gyfer datganiadau pleidleisio drwy'r post (gweithdrefn wirio);

(vii) unrhyw beth sy'n cael ei drin fel pe bai'n bapur pleidleisio sydd wedi ei gyfrif o dan baragraff (1)(b) na fyddai fel arall yn cael ei gynnwys mewn pecyn yn unol ag is-baragraffau (i) i (vi);

(viii) y copïau wedi eu marcio o'r rhestr o bleidleiswyr drwy'r post a'r rhestr o bleidleiswyr drwy'r post fel dirprwyon;

(b) anfon y pecynnau hynny ymlaen at y swyddog cofrestru perthnasol, ynghyd ag—

(i) unrhyw becynnau wedi eu selio a ddisgrifir yn rheoliadau 75(1), 77(6), 78(2C) a 78A(2)(c) o Reoliadau 2001 (rhestrau rhif cyfatebol wedi eu cwblhau a phapurau pleidleisio a ddifethwyd, a gollwyd neu y cawsant eu canslo);

(ii) unrhyw restr y mae'n ofynnol ei llunio yn unol â rheoliad 87(4) o Reoliadau 2001 (rhestrau o bapurau pleidleisio a wrthodwyd).

(4) Rhaid i'r swyddog canlyniadau arnodi pob pecyn a ddisgrifir ym mharagraff (4) ag—

(a) disgrifiad o'i gynnwys;

(b) dyddiad y bleidlais ar gyfer yr is-etholiad perthnasol; ac

(c) enw'r ardal (neu'r ardaloedd) etholiadol y mae'r is-etholiad perthnasol yn ymwneud â hi neu â hwy.

(5) Mae adran 36(4) neu (5A) o Ddeddf 1983 (etholiadau lleol yng Nghymru a Lloegr: talu am wariant)(**1**) yn gymwys i'r holl wariant y mae swyddog canlyniadau yn mynd iddo yn briodol mewn perthynas ag arfer swyddogaethau'r swyddog o dan y rheoliad hwn fel y mae'n gymwys i wariant yr eir iddo yn briodol mewn perthynas â chynnal etholiad.

(**1**) Diwygiwyd adran 36(4) a (5A) gan Atodlen 17 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1985 (p. 51); a chan baragraffau 68(9) a (10) o Atodlen 16 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19).